

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth
O fis Ebrill i fis Medi*

Disgrifiad o'r modiwl

Mae T192 yn cyflwyno myfyrwyr i egwyddorion allweddol peirianeg a pheirianeg cynllunio, wrth eu helpu i ddatblygu eu sgiliau astudio a dod yn ddysgwyr mwy annibynnol a myfyriol. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut mae disgyblaeth eang peirianeg wedi datblygu dros amser, mynd i'r afael ag enghreifftiau cyfredol o ymarfer peirianeg, a chael blas ar dueddiadau'r dyfodol. Mae gwybodaeth wyddonol a sgiliau mathemategol yn elfennau hanfodol o beirianeg. Maent yn ffurfio rhan o'r T192 a chânt eu cynnwys a'u harfer drwy gydol y modiwl, gyda'r pynciau peirianeg yn darparu cyd-destun clir er mwyn eu cymhwyso.

Mae pynciau mathemategol fel rhifedd sylfaenol, modelu mathemategol syml, algebra, gwaith graff, geometreg a thrigonometreg naill ai'n cael eu haddysgu neu eu hadolygu i raddau amrywiol. Caiff y cynnwys mathemateg ei asesu'n rheolaidd drwy ddefnyddio cwisiau ac aseiniadau rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMA).

Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad cyffredinol i beirianeg a sut y caiff ei arfer mewn cymdeithas fodern ac mae'n paratoi myfyrwyr ar gyfer astudiaethau pellach ar Lefel 1. Mae T192 wedi'i gynllunio fel y modiwl cyntaf i gael ei astudio ar BEng, MEng a Eng FD ac mae'n gyffredin i bob llwybr drwy'r cymhwyster.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech allu ddangos y canlynol:

- diddordeb a brwdfrydedd o ran addysgu peirianeg a mathemateg ar lefel 1 mewn amgylchedd ar-lein yn bennaf
- y gallu i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau astudio sylfaenol a hyder ym maes mathemateg
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd yn y defnydd effeithiol o adnoddau amgylchedd dysgu rithwir sy'n hollbwysig i'r modiwl
- y gallu i hwyluso gweithgareddau grŵp tiwtor ar-lein
- parodrwydd a gallu i gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu diddorol ym meysydd cysyniadau/cwricwlwm peirianeg a mathemateg wyneb yn wyneb ac ar-lein

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg
- profiad o addysgu peirianeg a mathemateg sy'n gysylltiedig â pheirianeg i fyfyrwyr peirianeg/gwyddoniaeth
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach, addysg uwch a/neu ddysgu o bell
- cymhwyster addysgu, neu gydnabyddiaeth broffesiynol gan sefydliad addysgu megis yr Academi Addysg Uwch
- aelodaeth o sefydliad peirianeg
- profiad o helpu myfyrwyr gyda'r gwaith o gynllunio datblygiad personol a phroffesiynol

Gwybodaeth ychwanegol

- Darperir dysgu drwy gymysgedd o diwtorialau a fforymau wyneb yn wyneb ac ar-lein ac adnoddau eraill ar-lein, gan gynnwys stiwdio peirianeg rithwir.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3

Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	5
---	---